# Adroddiad ar

# Camau Cyntaf - First Steps Cylch Meithrin Rhydyfelin

**Holly Street**
**Rhydyfelin**
**Pontypridd**
**RCT**
**CF37 5DB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Camau Cyntaf - First Steps Cylch Meithrin Rhydyfelin

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Camau Cyntaf – First Steps Rhydyfelin |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Lisa Thomas |
| Person â gofal | Chloe Walker |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2-5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 19 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 19 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:45yb i 15:15yp |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 25 Hydref 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/05/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau Cymraeg yr ymarferwyr er mwyn ehangu geirfa'r plant yn ystod adegau chwarae

A2 Sicrhau bod asesiadau yn dathlu llwyddiannau'r plant, ac yn adnabod eu cynnydd o'u man cychwyn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n hapus yn y lleoliad ac yn ymdopi wrth gyrraedd a gadael eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ar draws holl elfennau'r ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod bod eu dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Mae'r plant yn symud adnoddau megis paent a dŵr o un ardal i'r llall er mwyn creu marciau ar bapur ac eraill yn newid lliw dŵr yn y twba dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn dda wrth rannu eu syniadau, eu teimladau a'u dymuniadau. Mae plant yn dewis peidio eistedd i fwyta oherwydd eu bod wedi ymgolli yn eu profiadau chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol gyda'r ymarferwyr. Mae'r plant yn derbyn cysur gan ymarferwyr cyn mynd ati i chwarae yn gartrefol. Mae llawer yn datblygu moesau da, er enghraifft, maent yn dweud 'diolch' am amlinelliad o goron frenhinol i gludo gliter amryliw arni.

Mae llawer o blant yn datblygu perthynas dda gyda'u ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n aeddfed a gan weiddi 'helo' arnynt yn hapus. Maent yn dangos parch a sensitifrwydd tuag at eu ffrindiau. Mae llawer yn helpu ei gilydd amser byrbryd ac wrth geisio gwisgo esgidiau ar y ffrâm ddringo. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau ac yn dysgu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus adeg bwyd. Maent yn dangos balchder wrth dderbyn canmoliaeth am eu gwaith. Mae llawer o blant yn gwenu'n hapus wrth i ymarferwyr godi eu bawd arnynt yn ystod amser cylch. Mae'r plant yn mwynhau clywed yr ymarferwyr yn gweiddi 'hwre' arnynt ar ôl i'r plant ddweud eu enwau ar lafar.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau arbrofi ac archwilio. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ymgymryd â gweithgaredd marcio trwy wasgu paent a rholio ceir i wneud traciau amryliw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am y profiadau. Mae plant yn cyffroi wrth rasio beiciau ac eraill yn ymgolli yn eu chwarae gyda dinosoriaid mawr. Mae'r plant yn defnyddio offer chwistrellu a deunyddiau arbrofi yn hyderus wrth greu llosgfynydd ffrwydrol yn yr ardal tywod a gwneud te â sudd lemwn go iawn.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau'n effeithiol. Mae mwyafrif y plant yn rhoi eu cot a'u bag ar y bachyn a llawer yn dod i nôl eu cotiau wrth fynd allan i chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn casglu a dychwelyd eu llestri adeg byrbryd. Mae bron pob plentyn yn arllwys diod a dewis bwyd maethlon yn annibynnol yn ogystal â rhoi menyn ar eu bara neu gracer.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ac yn ymdrechu'n frwdfrydig i ddatblygu eu medrau wrth chwarae. Daw llawer o gartrefi difreintiedig ac yn ystod asesiadau cychwynnol. Mae canran uchel o ddisgyblion yn amlygu

amrywiaeth o anghenion dysgu. Er hynny, maent yn dangos mwynhad ac ymglymiad naturiol wrth ymgymryd â'u gweithgareddau ac yn llwyddo i elwa o'r cyfleoedd dysgu diddorol sy'n cael eu darparu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth fynegi eu hunain ar lafar ac maent yn siarad yn hapus wrth chwarae. Yn yr ardal allanol maent yn rheoli beiciau'n gelfydd wrth deithio ac o amgylch gwrthrychau. Wrth arbrofi ac ymchwilio maent yn dangos chwilfrydedd heintus wrth greu trac i geir lithro ar ei hyd. Mae llawer yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth iddynt ddringo, llithro a chydbwyso ar yr offer mawr yn yr ardal allanol.

Mae llawer o blant yn dangos sensitifrwydd naturiol wrth chwarae gyda'u cyfoedion. Maent yn ymgolli'n llwyr wrth gasglu blodau dant-y-llew a gwerthfawrogi ysblander byd natur. Mae eu medrau cymdeithasol yn datblygu'n briodol ac mae llawer yn llwyddo i osgoi gwrthdaro trwy newid trywydd y chwarae neu symud at adnoddau gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn annibynnol iawn wrth ymwneud â'u gweithgareddau. Maent yn weithredol iawn wrth fynd ati i greu tê lemwn, archwilio gyda'r golau a darganfod crocodeilod pan yn hwylio mewn cwch.

Mae medrau creu marciau ac ysgrifennu cynnar llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio pin ffelt i ymarfer marcio ar fwrdd gwyn a thynnu llun blodau lliwgar. Maent yn datblygu eu medrau modur mân yn dda trwy farcio'n llai ffurfiol yn y gliter.

Mae llawer yn dangos y gallu i wrando am gyfnodau byr ar ganeuon Cymraeg sy'n cael eu canu gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gân 'Beth sydd yn y fasged siopa…?' Mae bron pob plentyn yn fwy cartrefol wrth ddilyn cyfarwyddiadau trwy gyfrwng y Saesneg ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o eirfa sylfaenol aml-ddefnydd.

Mae gan lawer o blant anghenion iaith a lleferydd penodol, ac, o ganlyniad, mae eu gallu i gyfathrebu'n ddealladwy yn y ddwy iaith yn llai datblygedig. Er hyn, maent yn cyfathrebu'n llwyddiannus pan yn chwarae â chyfoedion gyda llawer yn cyfleu eu anghenion trwy ddefnyddio ystymiau yn hytrach na geiriau. Mae'r plant sydd â medrau llafaredd mwy datblygedig yn dysgu geirfa newydd yn gyflym ac yn eu defnyddio wrth chwarae.

Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Maent yn dangos mwynhâd wrth ddewis llyfrau yn yr ardal allanol ac yn byseddu trwy'r tudalennau yn ddeallus. Maent yn dal llyfrau yn gywir ac yn dangos ymglymiad llwyr yn y cynnwys. Mae'r ymglymiad mae'r plant yn dangos wrth ymdrin â llyfrau yn gryfder.

Mae llawer o blant yn manteisio ar gyfleoedd da i wella eu dealltwriaeth o briodweddau siapau 3D. Trwy chwarae'n greadigol gyda blociau pren a siapau lliw ar y bwrdd golau maent yn dod i ddeall priodweddau gwahanol siapau a sut i'w defnyddio ar gyfer adeiladu. Mae rhai plant yn medru rhifo'n hyderus yn y Gymraeg hyd at bump ac yn dechrau adnabod rhifolion.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae’r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant barhaus. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol a maent yn ymwybodol o’r gweithdrefnau i’w dilyn os oes ganddynt bryderon am blant. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Yn ogystal, mae pob un o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg a hylendid bwyd. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau yn rheolaidd a’u cofnodi’n effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo ar ôl bod allan a chyn bwyta. Maent yn sicrhau bod byrddau’n cael eu glanhau gyda hylif di-heintio cyn eistedd a bwyta. Maent yn dilyn gweithdrefnau addas ar gyfer newid cewyn ac ar adegau lle mae staff yn paratoi a rhoi cymorth ar adegau bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser yn yr awyr iach.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio perthynas cadarn a pharchus gyda’r plant. Maent yn annwyl a charedig ac yn ymateb yn fedrus i anghenion a diddordebau’r plant. Maent yn defnyddio strategaethau cyson i hybu ymddygiadau cadarnhaol yn unol â’r polisi. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy chwarae wrth ochr y plant gan ddweud ‘diolch’ wrthynt a thrwy annog plant i ddweud diolch am eu bwyd. Maent yn canmol plant yn barhaus.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth am ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant, ac yn defnyddio’r wybodaeth er mwyn cynllunio’n effeithiol ar eu cyfer. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol er mwyn derbyn cymorth ychwanegol oddi wrth asiantaethau allanol.

Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am llwyddiannau a’u cynnydd gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn defnyddio ap ar lein diogel sy’n caniatáu i rieni a gofalwyr gadw mewn cysylltiad cyson gyda phrofiadau eu plant tra yn y lleoliad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae’r lleoliad wedi gwneud camau da tuag at addasu eu dulliau asesu i gyfateb â disgwyliadau’r Cwricwlwm i Gymru. Mae dulliau asesu y lleoliad yn cynorthwyo’r ymarferwyr i adnabod y plant sydd ag anawsterau dysgu yn gynnar iawn. Maent yn cydweithio’n dda gyda’r rhieni i gwblhau ffurflen asesu cychwynnol ac yn adnabod y plant hynny sy’n wynebu heriau o ran datblygiad iaith a lleferydd. Maent yn defnyddio’r holl wybodaeth yn effeithiol iawn pan yn rhoi cais am gymorth ychwanegol i blentyn. Mae’r ymarferwyr yn cadw asesiadau rheolaidd sydd yn gofnod manwl ac effeithiol o ddatblygiad plant. Fodd bynnag, nid yw’r asesiadau yn

darparu digon o gyfle i ddathlu llwyddiannau'r plant, nag yn adnabod cynnydd y plant o'u man cychwyn.

Mae'r ymarferwyr wedi creu amgylchedd ddysgu sy'n llawn profiadau diddorol a chyffroes ac yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant. Maent wedi cynllunio ardaloedd dysgu sy'n annog y plant i fod yn annibynnol a chreadigol gyda chyfleodd iddynt ddysgu'n weithredol am gyfnodau hir, di-dor. Mae'r ymarferwyr yn dangos gofal a pharch tuag at blant ac yn eu cefnogi'n synhwyrol i wneud penderfyniadau a dewisiadau. Maent yn annog a chefnogi chwilfrydedd plentyn yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft, wrth gymysgu cynhwysion i greu llosgfynydd. Rhoddir gyfleoedd i'r plant arsylwi, arbrofi, cymryd risg a gwneud penderfyniadau mewn modd garedig a chynhaliol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth arsylwi ac asesu cynnydd y plant. Maent yn llwyddo i defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynllunio gweithgareddau sy'n hybu datblygiad y plant yn llwyddiannus. Maent yn arsylwi ar y plant yn gyson gan ddefnyddio eu canfyddiadau i gynllunio profiadau dysgu diddorol a chyffrous. Er enghraifft, yn dilyn arsylwad o blentyn yn dangos diddordeb mewn pasta a golchi llestri fe aethpwyd ati i roi pasta yn yr ardal chwarae rôl a gosod offer chwythu swigod yn yr ardal allanol. Er bod y dull yma o weithredu wedi ei sefydlu'n lled ddiweddar, mae'r ymarferwyr yn dangos parodrwydd i addasu eu ffyrdd o weithio er mwyn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r ymarferwyr yn magu hyder wrth addasu eu cynllunio er mwyn ymateb yn fwriadus i anghenion a diddordebau plant. Maent hefyd yn manteisio ar eu dealltwriaeth o ymddygiadau ail adroddus plant ac yn cynllunio ar gyfer y diddordebau hyn yn llwyddiannus. Wrth arsylwi ar blant mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio eu dealltwriaeth o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru ac egwyddorion cynnydd i sicrhau profiadau diddorol ac ymestynnol i'r plant.

Mae pob un o'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn ymroddgar iawn i ddatblygu eu llafar ac wrth i'w medrau gynyddu mae effaith yr hyfforddiant yn dylanwadu ar eu hyder i ddefnyddio geirfa darged Cymraeg gyda'r plant. Er hyn, nid yw eu hyder ieithyddol wedi datblygu'n ddigonol hyd yma.

**Yr amgylchedd:  Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant yn barhaus. Maent yn sicrhau gweithdrefnau cadarn iawn ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli yn effeithiol iawn. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posib a'r camau sydd yn cael eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg yn bodoli.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn effeithiol dros ben. Mae'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn ddi-dor sydd yn annog chwilfrydedd y plant wrth symud o gwmpas yn rhydd ac yn hwylus. Mae'r ardal fewnol ac allanol wedi eu trefnu yn hynod o ofalus a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau i gyfoethogi'r profiadau yn llwyddiannus. Mae ystod o adnoddau ac offer 'go iawn' ar gael, sy'n cynnwys ffrwythau, blodau,

perlysiau, bagiau te a chrochenwaith wrth chwarae a bwyta. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu dychymyg. Mae ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol a chyffrous i blant. Er enghraifft ardaloedd garddio, adeiladu, darllen, peintio a marcio, dringo, chwarae rôl cegin fwd. Mae'r ardaloedd sydd yn datblygu chwilfrydedd y plant yn cynnwys darnau rhydd, profiadau archwilio a darganfod gwyddonol a chreadigol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dewis helaeth o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael i'r plant. Mae'r rhain o ansawdd uchel ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd ardderchog i arbrofi gyda pherlysiau, blodau, ffrwythau bagiau te trwy chwarae rôl. Yn ogystal, ceir ystod dda o adnoddau er mwyn hybu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd hynod o dda i ddysgu am y byd o'n cwmpas wrth fynd am dro ar hyd llwybr natur o amgylch y safle. Gwelir adnoddau ar y byd ehangach, er enghraifft gwelir gwisgoedd o ddiwylliannau eraill, llyfrau am grefyddau gwahanol a doliau a phypedau aml-gyfrwng.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn cael ei harwain yn effeithiol tu hwnt gan dîm o bobl sy'n hollol deall eu cyfrifoldebau'n drylwyr ac yn cyd-weithredu'n effeithiol dros ben er lles y plant. Mae'r tîm rheoli wedi creu system gadarn sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn amrediad cyfoethog o hyfforddiant sy'n eu helpu i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol iawn. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau anwytho hynod effeithiol ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnwys cyfnod anwytho pwrpasol a chefnogaeth mentor o'r lleoliad. Yna, mae ymarferwyr newydd yn dilyn cynllun 'Pasbort i Ragoriaeth' sydd wedi ei drefnu gan yr arweinwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn yr hyfforddiant a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rôlau'n llwyddiannus dros ben.

Mae tîm rheoli'r lleoliad yn brofiadol iawn, ac yn cefnogi'r arweinydd yn arbennig o dda. Mae'r arweinydd wedi elwa o'r cyfoeth o wybodaeth sydd gan yn tîm arweiniol ac yn barod i gydweithio a threialu dulliau newydd o weithredu.

Mae aelodau o'r tîm arweiniol yn treulio llawer o amser yn y lleoliad a chyfarfod â rhieni. Maent yn arsylwi ar y plant yn ystod eu gweithgareddau ac yn rhoi arweiniad a darparu hyfforddiant buddiol iawn i ymarferwyr. Maent yn gweithio'n ddiwyd ac effeithiol tu hwnt i sicrhau cefnogaeth rhagorol i bob plentyn sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu proses hunan arfarnu effeithiol sy'n cynnwys mewnbwn oddi wrth yr holl rhanddeiliaid. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o gryfderau'r lleoliad a'r hyn sydd angen ei wella. Enghraifft dda o hyn oedd cwblhau asesiadau anghenion dysgu ychwanegol yn dymhorol er mwyn adnabod ardaloedd sydd angen gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yma wrth gynllunio gweithgareddau i wella'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gweithredu polisi drws agored gyda'r ymarferwyr yn cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda rhieni. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth gyson

iawn am les a datblygiad eu plant trwy ap electroneg defnyddiol. Mae’r rhieni yn datgan eu bod yn hapus iawn gyda’r wybodaeth sy’n cael ei rannu ac yn teimlo eu bod yn gallu troi at aelodau o staff ar unrhyw adeg i ofyn am gyngor. Mae’r rhieni yn edmygu’r ffordd mae’r lleoliad yn llwyddo i adnabod anghenion eu plant yn gynnar ac yn gwerthfawrogi’r camau sy’n cael eu cymryd er mwyn sicrhau cymorth ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos iawn gyda’r gymuned. Yn ddiweddar maent wedi adeiladu perthynas waith gydag archfarchnad leol lle mae nhw’n cyfrannu nwyddau ar gyfer y banc bwyd sydd yn y lleoliad. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod cyflenwad o nwyddau babi ar gael yn y banc ar gyfer y rhieni hynny sydd eu hangen. Mae’r rhieni yn elwa o’r llyfrgell benthyg llyfrau Cymraeg sydd wedi ei sefydlu wrth y fynedfa. Yma, gall rhieni ddewis llyfr i fynd adre i’w fwynhau gyda’u plant a’i gyfnewid fel y dymunant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023